Mis Chwefror 2011

Y Cylch Dinasyddiaeth: Pythefnos Masnach Deg – 28 Chwefror 2011

Heddiw yw diwrnod cyntaf **Pythefnos Masnach Deg**; mae'r bythefnos yn rhedeg hyd 13 Mawrth 2011. Fel rhan o'n hymrwymiad fel Eglwys Masnach Deg i hyrwyddo masnachu teg trefnir nifer o ddigwyddiadau yn ystod y bythefnos nesaf. Erbyn Dydd Sul nesaf bydd silffoedd ffenestri'r capel a thu ôl i'r pulpud wedi eu haddurno ? nwyddau Masnach Deg. Bydd nwyddau ar werth yn y Festri wedi'r Oedfa Hwyrol *Nos Sul nesaf* (6 Mawrth) a bydd cyfle ymhen pythefnos, ar *Ddydd Sul, 13 Mawrth,* nid yn unig i brynu'r nwyddau 'rydym yn eu gweld yn fisol ond hefyd nwyddau mwy anarferol!

Er na fydd yna Gadair Ddu bydd yna gyfle i rywun neu rywrai o Gynulleidfa Eglwys Minny Street ennill y fraint o fod yn *"Mastermind"* Masnach Deg Minny Street 2011. Yn ystod Pythefnos Masnach Deg bydd yna nifer o gwestiynau i'w hateb, gan unigolion neu deuluoedd, ac ynghyd ag anrhydedd y teitl bydd gwobr dymhorol i'r enillydd! Yn ystod Pythefnos Masnach Deg bydd yr Ysgol Sul hefyd yn trefnu *Mini "Mastermind" Masnach Deg.*

Er nad yn uniongyrchol gysylltiedig â Phythefnos Masnach Deg, amser cinio *Dydd Gwener 25 Mawrth 2011* cynhelir ***Cinio Cawl Cynnil*** yn Festri Minny Street er budd Cymorth Cristnogol.

Gweddio, Gweithredu a Gogoneddu – 27 Chwefror 2011

Iesu'r Athro da - dyna fu thema'r Ysgol Sul yn ystod Mis Chwefror. Bu'r Iesu yn dysgu ei ddisgyblion a'i ddilynwyr i weddïo; fel rhan o'u gwaith y mis hwn bu dosbarthiadau'r Ysgol Sul, fel y bu cynulleidfaoedd Oedfaon y Sul dros y misoedd diwethaf, yn astudio Gweddi'r Arglwydd. Yn ystod y mis, bu Dosbarth y Plantos y creu Cylch Gweddi - cadwyn o gylchoedd a phob cylch yn nodi agwedd arbennig y dylid gweddïo amdani: *"bod yn dda", "diolch i dad a mam", "bod yn garedig".*

Heddiw, bu Dosbarth y Plant yn dehongli rhai o gymalau'r Weddi Fawr gan ofyn sut y gellir defnyddio'r Weddi'n bersonol wrth weddïo. Gofyn cwestiynau digon dyrys, megis beth yn union yw'r Deyrnas, pa mor hawdd yw maddau, a beth a olygir gyda'r ymbil *"Sancteiddier dy Enw"*?, bu'r Dosbarth Ieuenctid. Daethant â'i sesiwn i'w derfyn trwy gydweithio i aralleirio'r Weddi yn iaith gyfoes ieuenctid 2011!

***"Ydwyf yr hyn ydwyf"* (Exodus 3: 14);** datganiad cyfarwydd Duw wrth Moses o'r berth yn llosgi ar Fynydd Horeb (Llun: *Moses before the Burning Bush* gan Domenico Feti 1589-1623). Dyna oedd testun pregeth ein pregethwr gwâdd am y dydd, y Parchedig Gareth Morgan Jones o Bontardawe. Cwyd unrhyw drafodaeth am Dduw yn 2011 gwestiynau dwys - a yw Duw'n bod? a oes yna unrhyw bwrpas credu yn Nuw? ai ofer ein holl grefydda? Yn ei llyfr, *The Case for God*, sef ymateb i anffyddiaeth awduron megis Richard Dawkins, Christopher Hitchens, Sam Harris a Daniel Dennett, ond sydd hefyd yn feirniadol o ffwndamentaliaeth grefyddol, cyfaddefa'r awdur, Karen Armstrong, mai hawdd yw bwrw ergydion ar grefydd. Ond o ddarllen tudalennau'r llyfr sylweddolir yn fuan bod Duw yn fwy nag unrhyw ddiwinydda ac athronydda. Mae ein syniadau am Dduw llawer rhy fach! Gwnaethpwyd y sylw pellgyrhaeddol nad dadlau dros fodolaeth Duw a wna'r Beibl - nid dyna yw pwrpas y Beibl! Yn hytrach, ceir oddi mewn i'w dudalennau hanes pobl yn cyfarfod â Duw. Nid yw'n bosibl diffinio Duw - *"Ydwyf yr hyn ydwyf"*. Datguddir Duw i'w bobl yn y greadigaeth, mewn hanes a thrwy unigolion …. *"cân f'enaid, cân, fy Arglwydd Dduw, i ti, mor fawr wyt ti, mor fawr wyt ti."* (C G Boberg 1859-1940, *cyf* S W K Hine ac E H Griffiths; *C.Ff.* 140)



Geiriau cyfarwydd Llyfr y Pregethwr oedd testun ein myfyrdod heno: ***"Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd, ac fe'i cei'n ôl ymhen dyddiad lawer"* (Pregethwr 11: 1).** Dyma un o nifer o gynghorion a geir o fewn Llenyddiaeth Doethineb y Beibl (hynny yw, Llyfrau Job, Diarhebion, Pregethwr a Chaniadau Solomon). Ymadrodd rhyfedd? Yn ôl ein Pregethwr Gwâdd, efallai mai cyfeirio at draddodiad Groegaidd a wna'r adnod. Adonis oedd un o'r duwiau ffrwythlondeb ac ail-enedigaeth, ac 'roedd yn arfer i ferched, yn fwyaf arbennig, blannu hadau (gwenith a cheirch, er enghraifft) mewn basgedi bas lle na "*Arglwydd, pryd y'th welsom yn newynog ...*" (Mathew 25: 37) fyddai'n bosibl iddynt dyfu

gwreiddiau dwfn. Ar ôl i'r hadau egino, taflyd y basgedi i ddwr yr afon ac yno, byddai'r llystyfiant

yn tyfu'n llewyrchus. Gwelwyd hyn fel arwydd o gyflwyno i eraill rhywbeth o'n heiddo personol. Ai datgan, felly, mae'r adnod bod angen i ni dderbyn her Duw a chyflawni gweithredoedd da, a gwneud hynny er mwyn eraill? Yn y darlleniad o Efengyl Mathew (Mathew 25: 31 - 40) ar ddechrau'r oedfa, o dan y pennawd Barnu'r Cenhedloedd, sôn yr Arglwydd Iesu am ddau ymateb iddo pan oedd mewn angen; un yn negyddol a'r llall y gadarnhaol. Fe'n hatgoffwyd bod y Cristion a'r Eglwys Gristnogol ehangach wedi eu galw i ymateb i anghenion eraill: "*er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da chwi* ***a gogoneddu eich Tad***" (Mathew 5:16); cyflawni gweithredoedd da nid i ddwyn clod personol ond i fawrygi'r Iesu.

Munud i Feddwl - 23 Chwefror 2011



A oes ynoch ddawn y cerddor? Ydych chi'n medru rhedeg sol-ffa? Canu offeryn? Oes yna Beethoven neu Mozart, oes yna dipyn bach o Joseph Parry ynoch? Cytuna'r Gweinidog nad yw pawb yn meddu'r ddawn gerddorol ond fe'n hatgoffa ni yn ei **Funud i Feddwl** wythnosol bod bob yr un ohonom yn gerddoriaeth! Ymdawelwch a gwrandewch!

Pwysigrwydd yr Amen! – 20 Chwefror 2011

Ers dechrau gweinidogaeth y Parchedig Owain Llyr Evans yn ein plith mae'n arfer gennym i estyn cyfle i aelodau'r gynulleidfa '*ddweud adnod*' ar thema arbennig unwaith y mis. Bydd y plant yn gwneud hyn yn wythnosol yn y Set Fawr ond prin yw'r cyfle bellach i oedolion rannu Gwirioneddau'r Gair â'i gilydd. **Gwasanaethu** oedd thema'r mis hwn a chafwyd toreth o adnodau

fore heddiw yn ein hatgoffa o'r fraint a'r anrhydedd sydd ynghlwm wrth gael cyflwyno ein hunain i wasanaeth ein Harglwydd. Myfyrio ar **Enwau'r Iesu** fu'r plant yn ei wneud yn ystod eu defosiwn ar ddechrau'r oedfa - cawsom gyfeiriadau yn cychwyn gyda bob llythyren o'r wyddor – gan gynnwys Arglwydd ac Athro, Gwas a Gwaredwr, heb anghofio Lili'r Dyffrynnoedd a Lloches mewn storm, Proffwyd a Rhosyn, a Tywysog Tangnefedd.

Arweiniad priodol iawn i waith yr Ysgol Sul sydd y mis hwn yn canolbwyntio ar Iesu'r Athro Da.

Yng nghanol ein hiraeth am un o'n haelodau hynaf, Mrs Gwyneth Griffiths, llawenydd oedd cael bod yn dystion yn yr Oedfa Fore i fedydd **Deiniol Owain Robe rts**, mab Non ac Aled (Yr Eglwys Newydd) a brawd i Elin. ***Calonnau a Chariad*** oedd Thema'r Bedydd a thrwy ddefnyddio cyfres o focsys ffurf calon oedd yn ffitio i mewn i'w gilydd llwyddodd y Gweinidog i'n hatgoffa sut mae Cariad Duw yn rhaeadru trwy Iesu a'i Eglwys, trwy Eglwys Minny Street a'i haelodau, trwy'r teulu i Non ac Aled, a thrwy Elin i'w brawd bach Deiniol.

Mae yna le i'r '*Un drwg*' yn ein bywydau a'n profiadau! Dyna oedd gosodiad annisgwyl braidd y Gweinidog yn ein Hoedfa Foreol wrth i ni barhau ein hastudiaeth o Weddi'r Arglwydd. ***"… a phaid â'n dwyn i brawf ond gwared ni rhag yr Un drwg …"*** (Mathew 6:13) oedd y cymal dan sylw ac fe dynnwyd ein sylw yn benodol i'r camgymeriad o anwybyddu'r '*Un drwg*' (Llun: Llyfr Job: Satan before the Lord (1750) gan Corrado Giaquinto (1703-1765). Fe'n hatgoffwyd o'r hanes yn Llyfr Job pryd y bu'r '*Un drwg*' yn cwmnïa â Duw a'i angylion (Job 1-2) cyn myfyrio yn fwy manwl ar Adda ac Efa yn gadael Gardd Eden (Genesis 3). Gellir dadlau nad Gardd Eden oedd y lle gorau i fagu pobl aeddfed, gyfrifol ac o ewyllys rhydd. O'u gyrru allan o'r Ardd bu rhaid i Adda ac Efa ddysgu dibynnu ar ei gilydd a chwilio am olion o bresenoldeb, arweiniad a gofal Duw. Mewn llawer ystyr trwy'r '*Un drwg*' rhyddhawyd diniweidrwydd er mwyn iddo ymblethu 'nôl yn llif o sancteiddrwydd. Wrth ymbil ar Dduw i'n gwarchod rhag profedigaeth, temtasiwn a phrawf gwyddom nad yw Duw byth yn ein harwain iddynt; cryfder ffydd yw credu bod Cariad Duw yn ein cynnal, harwain a'n dysgu yn, ac oherwydd, pob temtasiwn, prawf a phrofedigaeth.

Er mor angerddol yw gwrando ar Gytgan yr Haleliwia o'r Meseia, oratorio fawr G F Handel, yn cael ei chanu, anorffenedig byddai'r gwaith heb Cytgan yr Amen i'w chloi. Yn Oedfa'r Hwyr fe'n hatgoffwyd mai un peth yw datgan bod Iesu yn deilwng o'r fendith, yr anrhydedd a'r gogoniant a'r

gallu; ofer y cyfan heb ymateb clir, cadarn a hyderus - ***Amen***! Mae'r un peth yn wir am Weddi'r Arglwydd - ar ôl y deisyfiadau, ac ar ôl y geiriau gollwng "***Canys eiddot Ti yw y deyrnas a'r nerth a'r gogoniant yn oes oesoedd***" sy'n rhoi popeth yn ei iawn bersbectif, rhaid wrth yr "*Amen*". Dyma sy'n datgan ein bod yn ymddiried yn Awdur y Weddi. O ddatgan hynny mae drws ar ôl drws yn agor i ni. Ffydd fentrus yw ffydd yn Iesu Grist; gall unrhyw beth ddigwydd ond i ni ymateb -***Amen***!



Wrth ddod a'r gyfres o fyfyrdodau ar Weddi'r Arglwydd i'w therfyn bu'r Gweinidog yn egluro celfyddyd strwythur y Weddi. Saif *Ein Tad yn y nefoedd* gyferbyn â'r *Un drwg*; y *Deyrnas* gyferbyn â *phrawf, profedigaeth a themtasiwn*; ac *Ewyllys Duw* gyferbyn â'n *troseddau* ni. Rhed *dyro inni heddiw ein bara beunyddiol* trwy galon y Weddi yn cydio'r pethau hyn i gyd ynghyd. *Ein Tad yn y nefoedd, deled dy deyrnas* a *gwneler dy ewyllys*: tri chymal agoriadol y Weddi yn cyfleu ein dyhead am weld Duw yn Frenin Coronog a ninnau yn tyfu'n feunyddiol mewn ffydd, gobaith a chariad. *Gwared ni rhag yr Un drwg, paid â'n dwyn i brawf* a *maddau i ni ein troseddau* yn amlygu'r pethau hynny sy'n gwthio Duw i ffwrdd, yn arafu llif dyfodiad ei Deyrnas - drygioni, temtasiwn a phechod. Yn dal y cyfan ynghyd mae'r cymal; *dyro inni heddiw ein bara beunyddiol*. Ymwna bara â phopeth bywyd: gofal Duw a gweithgarwch pobl; gofynion y cnawd a dyheadau'r ysbryd; trafferthion ysbrydol a phroblemau economaidd, diwydiant a dyletswydd. Amhosibl bellach gwahanu'r materol a'r ysbrydol, y cysegredig a'r cyffredin. **Calon y Weddi Fawr yw'r gofyn am fara** (Llun: *Praying Hands* gan Albrecht Durer 1471-1528)**.** Yr her i ni yw sylweddoli mai dim ond trwy ddod â chyfanrwydd ein bywyd at Dduw a chynnwys Duw ym mhob peth ein bywyd beunyddiol y daw unrhyw lewyrch arno.



I'r rhai hynny ohonom sydd, dros y misoedd diwethaf, wedi dilyn

Cyfres Gweddi'r Arglwydd yn ei chyfanrwydd bu'r myfyrdodau yn agoriad llygad ac yn faeth i'r enaid. Cymaint mwy ein dealltwriaeth a'n dehongliad o eiriau yr ydym mor gyfarwydd o'u clywed a'u hadrodd. Y dystiolaeth orau, efallai, o ddylanwad y myfyrdodau oedd i'r trafod a'r dehongli ar ddeisyfiadau'r Weddi barhau dros bryd bwyd Eidalaidd yn ein Koinonia Hwyrol wedi'r oedfa.

Gwyrth y Gwanwyn ym Mharc y Rhath – 19 Chwefror 2011



Cerdded o gwmpas Cronfa Ddwr Llanisien oedd y bwriad heddiw ond gan fod ein tywysydd, John Albert Evans, yn ddi-hwyl a ninnau felly "*fel defaid heb ganddynt fugail*" penderfynwyd dilyn llwybr mwy cyfarwydd a glanach!

Waeth pa mor aml y bydd rhywun yn cerdded o amgylch y llyn ym Mharc y Rhath mae'n newydd bob tro! Heddiw yn sicr 'roedd y Gwanwyn yn y tir.

Carpedi o saffrwn wedi eu taenu o dan y coed helyg; hwythau yn eu melyn ffres yn gwyro dros ymyl y dwr a'r elyrch yn ysgwyd eu plu. Er i'r Gaeaf wneud ei waethaf 'roedd gwyrth y Gwanwyn yn digwydd eleni fel erioed. "*Chwefror chwyth y neidr 'odd'ar ei nyth*" meddai rhywun o'r cwmni a'r Athro Glyn yn ychwanegu llinell lai cyfarwydd *"Ond Mawrth cadarn a'i cyfyd hi allan*"

Wrth oedi dros baned o goffi buom yn hel atgofion am yr annwyl Gwyneth Griffiths fu farw bore ddoe. "*Y ledi mewn pinc*", chwedl un o blant lleiaf yr eglwys. "*Ledi*" o'r iawn ryw, o doriad bonheddig, urddasol a fedrodd gadw ei hurddas er iddi groesi ei deg a phedwar ugain mlwydd.

Doedd dim pall ar y sgwrsio wrth i ni fwynhau cinio blasus yn Y Tri Bwa ac eisoes fe wnaed awgrymiadau ar gyfer sawl taith arall

Genedigaeth - 18 Chwefror 2011

Croeso cynnes i **Jack Llywelyn** a anwyd heddiw i Dafydd a Kathryn-Ann Harries; brawd i Beca ac wyr i Margaret a Justin Harries. Dymuniadau da i'r teulu.

Babimini - 18 Chwefror 2011

'Roedd heddiw'n fore prysur yn **Babimini** wrth i griw bywiog o blant bach a'u rhieni ddod at ei gilydd i chwarae a chymdeithasu. 'Roedd llawr y festri wedi ei drawsnewid yn faes chwarae lliwgar, a'r plant, i gyd o dan dair oed, yn mwynhau cwmni ei gilydd. Yn ôl yr arfer cafodd y plant fwynhau lluniaeth iach wrth i'w rhieni rannu sgwrs dros baned. Braf oedd gweld ambell wyneb newydd ynghyd â hen ffrindiau wedi dychwelyd at y criw ar ôl seibiant. Bydd gweithgareddau **Babimini** yn ail-gychwyn ar ôl gwyliau hanner tymor, pan fydd y plant yn dod ynghyd yn eu gwisgoedd Cymreig i ddathlu Gwyl Ddewi.

Cydymdeimlo – 18 Chwefror 2011

Bu farw un o'n haelodau hynaf, **Mrs Gwyneth Griffiths**, fore heddiw. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i meibion, Hugh a Martin a'u teuluoedd, ynghyd â'i chyfeillion niferus.

Munud i Feddwl – 16 Chwefror 2011

Gweld eich hunan yn dipyn o gyfarwyddwr ffilm yn Hollywood? *Cowboys and Indians*? *Cops and Robbers*? *Good Guys and Bad Guys*? Mae Mathew wrthi yn ceisio gwneud ei farc ar y sgrin arian – ydy e'n llwyddo? Myfyrio ar yr hyn ddigwyddodd a wna'r Gweinidog yn ei **Funud i Feddwl** wythnosol.

Y Gymdeithas: Fy Milltir Sgwâr – 15 Chwefror 2011

'Pobl ddwad' yw mwyafrif y Cymry Cymraeg sydd yn y brifddinas erbyn hyn, ac er i Peter Gillard, Rhian Linecar ac Eilonwy Jones ymgartrefu yng Nghaerdydd ers degawdau bellach, dewis sôn am y pentrefi lle'u magwyd - ym Mhen Llyn a'r De-orllewin wnaeth y tri wrth gyflwyno ' *Fy Milltir Sgwâr*'.

Olrhain y newid mawr fu ym **Mhwllheli**, y pentref glan môr lle cafodd Rhian ac yntau eu codi, wnaeth Peter; pentref oedd bron yn uniaith Gymraeg yn ystod ei lencyndod, ond a dyfodd yn dref brysur ac yn gyrchfan i'r ymwelwyr a dyrrai yn eu miloedd i *Butlins* ar eu gwyliau. Bellach mae'n gyrchfan i hwylwyr o bedwar ban; y marina mwyaf ym Mhrydain, ar wahân i Cowes!

I raddau helaeth yr un fu'r dylanwadau cynnar ar y tri siaradwr: rhieni a theulu, athro ac ysgol, capel ac Ysgol Sul. *"Mae'n beth reit emosiynol*," meddai Rhian wrth gofio bro ei mebyd, *"mae teimladau o hiraeth, euogrwydd, llawenydd a thristwch yn gymysg oll i gyd."*

Pontlliw - pentre'r pyllau glo a'r cymeriadau lliwgar ar y ffin rhwng y Forgannwg ddiwydiannol a'r Sir Gâr amaethyddol yw'r 'filltir sgwâr' i Eilonwy. 'Roedd y capeli'n ganolbwynt i fywyd ysbrydol a diwylliannol y pentref yn ystod ei phlentyndod. Ond daeth tro ar fyd. Cau bu hanes y pyllau glo ac uno bu hanes rai o'r capeli. "*Ydw, dwi'n byw yng Nghaerdydd ers blynyddoedd lawer ond*", meddai Eilonwy, *"Pontlliw yw* ***ngartre*** *i ... yno ...* "***Rydw i'n perthyn – i'r popeth di-ri' sy'n cydio amdana'i dynn, ac maen' hwythau yn symud a bod ynof fi.***" (Perthyn gan Islwyn Ffowc Elis ; allan o *Yr Arloeswr (Rhifyn 5) Gaeaf 1959)"*

Cynhelir **Oedfa Gwyl Ddewi** ar Ddydd ein Nawddsant - **1 Mawrth 2011**. Bydd yr Oedfa o dan ofal ein Gweinidog ac yn cychwyn am 19:30.

Cylch Dinasyddiaeth: Band Bwyd Caerdydd – 15 Chwefror 2011

Bore heddiw bu cynrychiolwyr o Gylch Dinasyddiaeth Eglwys Minny Street yn ymweld â **Banc Bwyd Caerdydd**. Datblygiad cenedlaethol yw'r syniad o Fanciau Bwyd; cychwynnwyd y cyfan gan Ymddiriedolaeth Trussell nôl yn 2000. Sefydlwyd Banc Bwyd Caerdydd yn 2009. Ian a Karen Purcell sy'n cydlynu'r Banc a chawsom wybod ganddynt hwy a'u cydweithwyr sut mae'r. Diddorol oedd gweld beth sy'n digwydd i'r bwyd y byddwn yn ei gasglu'n fisol y capel; o'i drosglwyddo i'r Banc o Minny Street, fe'i cofnodir (dyddiad bwyta ac ati), ei roi ar y silffoedd ac yna ei ddosbarthu naill ai i unigolion neu i un o dair canolfan rhannu a leolir ar draws Caerdydd. Menter Gristnogol yw'r Banc Bwyd; modd i Gristnogion Caerdydd estyn gofal a chonsyrn am y 50,000 a mwy o drigolion y ddinas sy'n ddifreintiedig, dros 15,800 ohonynt yn blant. Wrth adael fe'n dwysbigwyd â'r neges ar y wal: *Success is measured in cans not in cannots*!

PIMS: Tân y Ffydd – 14 Chwefror 2011

Beth sy'n cadw Tân Ffydd i fflamio? Dyna fu aelodau **PIMS** yn ei drafod heno; sesiwn drom ar Noson San Folant efallai ond, fel arfer, cafwyd dadleuon a safbwyntiau arbennig o aeddfed gan y Criw. Pan fydd tân yn mudlosgi rhaid ei brocio i sicrhau bod digon o aer yn symud trwyddo; rhaid hefyd clirio'r lludw - glo a oedd unwaith yn danwydd effeithiol ond bellach heb ddefnydd iddo - '*wedi chwythu'i blwc*'! Felly hefyd ein ffydd; da ambell brociad i'n dihuno a rhaid wrth glirio rhai pethau nad sydd o wir bwys i'n dealltwriaeth a'n hadnabyddiaeth o'r Arglwydd Iesu. Beth yw Hanfodion y Ffydd Gristnogol? Dyna oedd un o gwestiynau mawr y sesiwn heno! Buom hefyd yn trafod mor hanfodol yw byw a gweithio gyda Duw, yn union, fel gefail yn codi darn o lo - y naill fraich yn dibynnu ar y llall. Wrth ddirwyn y drafodaeth i



MEWN DAU GAE

O BA le'r ymroliai'r môr goleuni
Oedd a'i waelod ar Weun Parc y Blawd a
Parc y Blawd?
Ar ôl imi holi'n hir yn y tir tywyll,
O b'le deuai, yr un a fu erioed?
Neu pwy, pwy oedd y saethwr, yr eglurwr sydyn?
Bywiol heliwr y maes oedd rholiwr y môr.
Oddifry uwch y chwibanwyr gloywbib, uwch
callwib y cornicyllod,
Dygai i mi y llonyddwch mawr.

Rhoddai i mi'r cyffro lle nad oedd
Ond cyffro meddwl yr haul yn mydru'r tes,
Yr eithin aeddfed ar y cloddiau'n clecian,
Y brwyn lu yn breuddwydio'r wybren las.
Pwy sydd yn galw pan fo'r dychymyg yn dihuno?
Cyfod, cerdd, dawnsia, wele'r bydysawd.
Pwy sydd yn ymguddio ynghanol y geiriau?
Yr oedd hyn ar Weun Parc y Blawd a Parc y Blawd.

A phan fyddai'r cymylau mawr ffoadur a phererin
Yn goch gan heulwen hwyrol tymestl Tachwedd
Lawr yn yr ynn a'r masarn a rannai'r meysydd
Yr oedd cân y gwynt a dyfnder fel dyfnder dis-
tawrwydd.
Pwy sydd, ynghanol y rhwysg a'r rhemp?
Pwy sydd yn sefyll ac yn cynnwys?
Tyst pob tyst, cof pob cof, hoedl pob hoedl,
Tawel ostegwr helbul hunan.

Nes dyfod o'r hollfyd weithiau i'r tawelwch
Ac ar y ddau barc fe gerddai ei bobl,

26

ben arweiniodd y Gweinidog Aelodau **PIMS** i fyfyrio ar eiriau Waldo Williams (1904-1971): *"Tawel ostegwr helbul hunan"* (*Mewn Dau Gae* allan o *Dail Pren* (1956) Gwasg Gomer). Onid dyna un o wirioneddau mawr ein Ffydd - Duw y Tad yn dod â heddwch a llonyddwch i'n bywydau cythryblus? Dros yr wythnosau nesaf bydd **PIMS** yn canolbwyntio ar waith Cymorth Cristnogol yng Nghambodia ac, fel rhan o'n ymrwymiad fel eglwys i Masnach Deg, yn ymweld â siop Siopa Teg yn Nhreganna.

Esgyrn, Tafod a Reis – 13 Chwefror 2011

Go brin fod neb wedi dod i'r **Oedfa Fore Gynnar** heddiw gan ddisgwyl clywed hanes llongddrylliad a meddyg esgyrn! Yr Athro Glyn Evans Jones oedd yn arwain yr oedfa a chlywsom hanes ei Hen, Hen, Hen, Hen, Hen Daid (!) sef Evan Thomas (1735-1814). (Llun: Evan Thomas (1804-1884) un o ddisgynyddion Evan Thomas (Y Casglwr (2004) Rhifyn 82, tud 12.) Goroesodd Evan Thomas, ynghyd ag un bachgen ifanc arall, storm fawr oddi ar Arfordir Môn ger Ynysoedd y Moelrhoniaid (y *'Skerries'*). Tyfodd i fod y cyntaf o linach o feddygon esgyrn enwog (un o'i ddisgynyddion, Hugh Owen Thomas (1834-1891), a ddatblygodd *'sblint Thomas'* ar gyfer toriadau esgyrn. 'Roedd Syr Robert Jones (1857-1891), un sylfaenwyr Ysbyty Orthopedig Robert Jones ac Agnes Hunt, Gobowen, Croesoswallt, hefyd yn perthyn iddo). Bu Evan Thomas yn trin Arglwyddes Bulkeley ac i ddangos ei werthfawrogiad cododd ei phriod, yr Arglwydd Bulkeley, gofadail iddo yn Eglwys y Plwyf, Llanfairynghornwy. Ar y cofadail ceir y geiriau: *"Er coffa am Evan Thomas … yr hwn trwy ddawn rhagorol a wnaeth les mawr i laweroedd wrth ailosod esgyrn drylliedig … Er parch i wr mor llesol i'w gyd-greaduriaid fe osodwyd y garreg yma gan … Arglwydd Bulkeley."* Y neges i ni oedd yn bresennol yn yr oedfa? Cawsom bob un ohonom ryw ddawn gan Dduw; onid ein dyletswydd a'n braint yw ei defnyddio *"er lles mawr i laweroedd"*?

Mae'n bosibl mai'r darn mwyaf cyfarwydd o Lythyr Iago oedd testun sylw ein **Hoedfa Foreol**. Agor Trydedd Bennod y Llythyr gyda thrafodaeth bellgyrhaeddol ar ***'y tafod'***! Syrthiwn bawb i ryw bechod neu'i gilydd; mor hawdd syrthio i bechod y tafod. Gall gwreichionen fach ddechrau tân mawr

mewn coedwig, medd Iago; gwreichionen o dân yw'r tafod hefyd - diderfyn ei gallu i losgi a niweidio. Onid anhygoel bod dynolryw wedi llwyddo i ddofi pob math o anifeiliaid gwyllt, ond wedi methu meistroli'r tafod!? Defnyddiwn ein tafod i ganmol a melltithio, i addoli a dinistrio - sut medrir defnyddio'r un aelod i wneud deubeth sydd mor gwbl groes i'w gilydd? Annog Iago ni, yn wir cred mai dyma waith mwyaf anodd bywyd, i sicrhau nad yw'r tafod yn croes-ddweud ei hun. Yn rhan olaf y bennod bwysig hon gofynnir *"pwy sy'n ddoeth a deallus yn ein plith?"* (Iago 3:13a). Bu'r Gweinidog yn egluro beth y golyga Iago wrth iddo ein hannog i sicrhau bod i'n *"gweithredoedd ostyngeiddrwydd doethineb"* (Iago 3: 13b). Mynna Iago bod credu yn Nuw yn effeithio a dylanwadu ar ein hymwneud ag eraill. Soniodd y Gweinidog am brotestiadau'r Aifft, am Shallomlyfr Donald Rumsfeld - *Known and Unknown*, ac am y rhaglen *Dispatches - Lessons in Hate and Violence* - sydd i'w darlledu nos yfory. Gan ddefnyddio dyfyniad hynod o briodol o'r *Philokalia* sy'n sôn am weld canolbwynt bywyd yn Nuw ac mewn cymydog, apeliodd arnom i

sicrhau ein bod yn cyflwyno i Dduw, sydd a'i ewyllys yn *Shalom* i, ac ymhlith, ei holl blant, ein gweddïau gwael a'n hymdrechion gwan am heddwch i'r byd yn gyfan.

Adeiladu'r Tabernacl - Pabell y Cyfarfod - oedd thema myfyrdod ein **Hoedfa Nos**. Yn Exodus ceir cyfarwyddiadau anhygoel o fanwl ar gyfer adeiladu'r Tabernacl (Llun: *The Tabernacle in the Wilderness* allan o Feibl Holman 1890) - hyd a lled, cynllun a strwythur, hyd yn oed pa liw o sidan dylid ei

ddefnyddio! 'Roedd gofynion Duw yn fanwl a chywir, ond mynnodd Duw hefyd bod y deunyddiau ac ati yn cael eu rhoi yn gwbl wirfoddol: *"derbyniwch oddi wrth bob un yr offrwm y mae'n ei roi o'i wirfodd."* (Exodus 25: 2b). Bu'r Gweinidog yn ein hatgoffa o'r hyn ddigwyddodd adeg adeiladu'r Deml yn ystod Teyrnasiad y Brenin Solomon (Llun: *Construction of Solomon's Temple* gan Jean Fouquet 1420-1481). Gwr nodedig am ei doethineb oedd Solomon ond bu'r modd iddo adeiladu'r Deml yn achos canrifoedd o boen alltudiaeth a thor-calon ar ôl ei farwolaeth. Pam? Trwy orfodi ei bobl i adeiladu'r Deml trodd trigolion ei Deyrnas yn gaethweision - arweiniodd hynny i wrthryfel chwerw. Fe'n hatgoffwyd nad mewn adeilad y gwelir Gogoniant Duw; yn hytrach, gwelir Duw ym meddwl ac enaid pobl sy'n cyflwyno eu hunain o'u gwirfodd iddo ac i'w wasanaeth. O orfodi ffydd,

fe wywa! O orfodi addoliad, fe wywa! O orfodi rhyddid hyd yn oed, fe dry yn orthrwm! Gofynnodd y Gweinidog ddau gwestiwn i ni ar ddiwedd ei fyfyrdod: Beth ddigwyddai pe byddem yn mynd ati i adeiladu bywyd Eglwys Annibynnol Minny Street ar sail adnod y testun? Beth fyddai Stori'r Ffydd yng Nghymru pe byddem fel Pobl Ffydd, o'n gwirfodd, yn agor ein bywyd led y pen, pob darn ohono, yn galon a chnawd i groesawu'r Duw byw? Beth tybed?

Mae aelodau Eglwys Minny Street yn hoff o reis! Bore heddiw cafodd y pecyn olaf o'r cyflenwad

reis diweddaraf i gyrraedd Minny Street ei werthu! Mewn cydweithrediad â Just Trading Scotland, trwy werthu 90kg o reis rhoddodd Cylch Dinasyddiaeth Eglwys Minny Street gyfle i ni fel aelodau noddi blwyddyn o addysg uwchradd i berson ifanc o Fala wi. Dyma'r ail lwyth o 90kg i ni ei glirio a braf oedd medru datgan bore heddiw ein bod wedi llwyddo i *"Glirio'r Cilos"*! Yn Milawi rhaid i ffermwr dyfu 90kg o reis i sicrhau blwyddyn o addysg i'w blentyn; trwy gymryd rhan yn y cynllun cawsom ninnau gyfle i addysgu ein hunain o egwyddorion masnachu teg ac i sylweddoli'r ymdrech a wna trigolion rhai o wledydd y byd i sicrhau'r hawliau hynny a gymerwn ni yn ganiataol. Cafwyd cyfle yn ystod y ddwy oedfa i gyflwyno rhoddion o fwyd at weithgarwch Banc Bwyd Caerdydd.

Gair Pos Mis Ionawr: **Dechrau**

Koinonia Prynhawn – 9 Chwefror 2011

????? ??a - Koinonia - defnyddir y gair 19 o weithiau yn y Testament Newydd Groegaidd. Yn syml,

gall Koinonia olygu cymuned, cymundeb, cyd-gyfranogi, rhannu neu agosrwydd. Ynghyd â chael mwynhau cinio wedi ei baratoi ar eu cyfer - ac osgoi clirio'r llanast wedyn(!) - wrth gyfarfod ganol dydd unwaith y mis mae criw *Koinonia Prynhawn* yn cael cyfle i ddod at ei gilydd am sgwrs, a phryd o fwyd a chymdeithasu tu allan i furiau'r capel. Yn yr Innkeeper's Lodge, Heol Ty'n y Parc, Yr Eglwys Newydd y cyfarfyddwn, yn ddynion a gwragedd o bob oed, rhai wedi ymddeol eraill yn rhydd o'r gwaith yn ystod awr ginio. *"Carvery"* rhesymol

iawn ei bris sydd yno i'n temtio; heddiw eisteddodd 15 ohonom i lawr i fwyta ac ymgomio. Elfrys Jones sydd wedi bod yn gyfrifol am drefnu'r digwyddiad misol ond o'r mis hwn ymlaen bydd Menna Brown yn cymryd at yr awenau. Nodir dyddiad ein cyfarfod, ynghyd â dyddiad *Koinonia Nos Sul*, a ddigwydd ar ôl Oedfa'r Hwyr unwaith y mis, yn y cyhoeddiadau wythnosol. Braf yw cael treulio orig yng nghwmni cyd-aelodau i rannu newyddion - yn ddigwyddiadau a gofidiau neu gonsyrn, yn drafodaeth ddwys a storiâu trwstan, yn lleddf a llon.

Munud i Feddwl – 9 Chwefror 2011

A oes arnoch ofn yr Anghenfil Anhrefn? Prin fod yr un cawell mewn unrhyw sw yn medru cadw'r creadur hwn o dan glo! Dinosor o anghenfil yw! Er bod cannoedd wedi methu mae'r Gweinidog am fentro cynnig ffordd i ffrwyno'r anghenfil! Sut? Darllenwch ei **Funud i Feddwl!**

Bethania – 8 Chwefror 2011

Daethom heno i ddiwedd yr Ail Daith Genhadol. Dyma Paul wedi teithio dros 2,000 o filltiroedd a chymryd dros dair blynedd i'w chwblhau - dair blynedd gynhyrfus! Dyna deithio, mentro, blino! Dyna bentwr mawr o amrywiol rwystredigaethau, dyna dameidiau bychan bach o lwyddiant; yr aberth a'r anturiaeth i gyd dros Grist!

Amser Saboth – 6 Chwefror 2011



Yn eu defosiwn ar ddechrau Oedfa'r Bore clywsom gan ddau o blant yr Ysgol Sul sut y bu i Iesu ddysgu ei ddilynwyr i siarad â Duw trwy weddïo. Arweiniad priodol iawn i *Iesu'r Athro Da* sef thema gwaith yr Ysgol Sul y mis hwn. Tynnu'r cortyn i gael y balwns i lawr o nenfwd y capel bu'r plant yn ei wneud ar ôl rhannu eu hadnodau â chynulleidfa'r Oedfa. Chwech balwn ar ffurf calon - cariad - oedd y rhain ac yn cynrychioli Cariad Duw. Bu'r Gweinidog yn rhannu â ni sut y daw Cariad Duw yn real yn ein bywydau trwy'r Arglwydd Iesu, trwy'r eglwys, trwy berthynas ifanc a hen, trwy ferched a gwragedd yr eglwys, trwy fechgyn a dynion yr eglwys, a thrwy fabanod yr eglwys.



Y Pedwerydd Gorchymyn! Hir? Heb os! Pwysig? Allweddol! Fe'n hatgoffwyd bod y Sabath yn ddisgyblaeth hollbwysig i Bobl Ffydd. Gofyn wnaeth y Gweinidog beth yn union yw hanfod y Gorchymyn hwn? Canolbwyntio ar **Amser Saboth**, hynny yw, y Saboth fel egwyddor yn hytrach nag fel dydd arbennig o'r wythnos buom yn ei wneud heddiw. Mae'n bwysig sylweddoli y gall y Saboth gyffwrdd â phob dydd, goleuo pob awr a datgelu trysorau'r funud fach, fwyn. Cyfle yw Amser Saboth i ymlonyddu i atgoffa'n hunain pwy yw Duw, a phwy ydym ni fel Pobl Duw. Anogwyd ni i wneud yn sicr ein bod yn neilltuo Amser Saboth. Sylweddolwn fod gwaith, chwarae ac addoli wedi mynd yn gymysg gawl - ***addolwn ein gwaith, gweithiwn yn galed ar ein chwarae, a chwaraewn gyda'n haddoliad.*** Crëwyd Amser Saboth i gadw trefn ar y tri pheth. Mewn Amser Saboth diffoddwn y teledu, y radio, y cyfrifiadur, y fwyaren a'r ffôn symudol. Mynnwn Amser Saboth yn gyson. O wneud gweithiwn yn well, cyflawnwn mwy, magwn deulu iachach a chynhaliwn anwyliaid yn gadarnach. Trwy gymryd Amser Saboth cydnabyddwn fod oedi gyda Duw yn ein gwneud yn well pobl. Y Pêr Ganiedydd, William Williams Pantycelyn (1717-1791) oedd Emynydd yr Oedfa.



Geiriau Salm 95 a ddefnyddiodd y Gweinidog i'n harwain ar Fwrdd y Cymun. Ym Meibl William Morgan darllen y seithfed adnod: *"Canys efe yw ein Duw ni; a ninnau yn bobl ei borfa, a defaid ei law."* Ar y darlleniad cyntaf ymddengys yr adnod hon yn rhyfedd - onid "*bobl ei law a defaid ei borfa*" fyddai mwy addas? Rhannodd y Gweinidog â ni ei feddyliau am Law Duw; llaw y rhed cerrynt Cariad anghymharol trwyddo - efallai bod y Salmydd yn gwbl iawn, meddai, i sôn amdanom fel *"defaid ei law"*.

Dilyn trywydd cysylltiedig â Thema Oedfa'r Bore wnaethom yn Oedfa'r Hwyr. Trwy ddefnyddio hanes Cain yn adeiladu'r ddinas gyntaf (Genesis 4: 16 a 17; Llun: *Cain Building the City Enoch* gan Maarten de Vos 1583) buom yn ystyried y materol a materoliaeth. Sicrha geiriau Margaret Thatcher (1925 -), *"No-one would remember the Good Samaritan if he'd only had good intentions; he had money as well."* ar 6 Ionawr 1980 hyd heddiw mai ymateb negyddol a roddwn mewn unrhyw drafodaeth ar fateroliaeth. Credwn fod yr ateb yn syml: os y materol yw'r dolur, yr

ysbrydol yw'r eli! Onid yw hwn yn syniad eithriadol peryglus? Onid oes angen i ni fod yn ofalus wrth bedlera'r fath syniad? Ydy'r materol yn gwbl ddrwg, a'r ysbrydol yn gwbl dda? Fe'n hatgoffwyd gan y Gweinidog bod Duw yn hoffi'r materol! Onid Duw a greodd y materol: *"A gwelodd Duw fod hyn yn dda … gwelodd Duw y cwbl a wnaeth, ac yr oedd yn dda iawn."* (Genesis 1: 4, 12, 18, 21, 25 a 31)? Nid hoffi pethau gormod ydym, ond methu hoffi pethau ddigon! – dyna oedd awgrym y Gweinidog. Mynnwn fod rhaid prynu rhyw bethau, eu bod yn gwbl angenrheidiol i'n bywyd - ffon symudol, MP3, mwyaren. Wedyn byddwn yn blino arnynt! Aethom i addoli'r angen i brynu - dyna ble mae'r drwg! Nid yn y deunydd ei hun.

Cymdeithion pentan (heyrn tan)! Trafod gefel, rhaw a phocer bu **Wedi 7** heno. Mae gan bob un o'r rhain rhywbeth i'w ddweud wrthym am ein Ffydd, ac am ein perthynas â'n heglwys leol. Mae naill fraich yr efel (Rhufeiniaid 8:28; Effesiaid 3:20) yn dibynnu ar y llall - trwy ddefnyddio gefel gellir cadw'n lan wrth drafod glo oer ac osgoi llosgi wrth drafod glo poeth! Mae tan yn diffodd os nad yw'r lludw yn cael ei symud - defnyddir rhaw (Lefiticus 6: 11 a 13) i wneud hyn. Cysgu a wna'r tan heb ddefnyddio pocer (2 Timotheus 1: 6). Beth yw neges y teclynnau a'r adnodau hyn i ni fel unigolion ac fel eglwysi? Daeth y drafodaeth i ben yng nghanol geiriau Llythyr Paul at yr Effesiaid (Effesiaid 6: 10-15) lle'n anogir i *"sefyll … â gwirionedd yn wregys … a chyfiawnder yn arfwisg … a pharodrwydd i gyhoeddi Efengyl tangnefedd yn esgidiau am eich traed."* Ar ôl trafodaethau o'r fath nid rhyfedd cymaint y mwynhad wrth rannu'r cawl a sgwrsio o amgylch y bwrdd yng nghartref y Gweinidog!



Ffenestri lliw Tom Denny yw testun sylw **... ac Ati** y mis hwn; meddwl am neges Llywiau a Lliwiau a wnawn ym **Myfyrdod y Mis**.

Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Dwyrain Morgannwg: 2 Chwefror 2011

"When we arise in the morning …we reach for a sponge which is provided for us by a Pacific Islander … soap that is created for us by a European … drink coffee which is provided for us by a South American, or tea by a Chinese or cocoa by a West African. Before we leave for our jobs we are already beholden to more than half of the world." Gyda geiriau Martin Luther King

anogwyd ni gan Y Parchedig Allan Pickard i nodi **Pythefnos Masnach Deg (28 Chwefror - 13 Mawrth 2011)** yn ein heglwysi. ***Dangos eich Label*** yw thema Pythefnos 2011; cyfle i sicrhau ein bod yn dangos i'r gymdeithas o'n cwmpas, i'n cyfeillion ac i'n cyd-aelodau ein bod yn gofidio am degwch, am gyfiawnder ac am gyfartaledd. Penderfynodd Eglwys Annibynnol Minny Street, yn unfrydol, mewn Cwrdd Eglwys ar 5 Rhagfyr 2004, ein bod yn cofrestru fel **Eglwys Masnach Deg**. Rho hyn ddyletswydd arnom fel aelodau i sicrhau defnyddio nwyddau Masnach Deg (mae dros 4,500 ohonynt i'w cael!) yn ein heglwys ac yn ein cartrefi. Mae'r Cylch Dinasyddiaeth eisoes wedi cychwyn trefnu cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer Pythefnos 2011 (gweler hanes Pythefnos 2010).

Wrth ddymuno'n dda i'r Parchedig Allan Pickard ar ei ymddeoliad o'i ofalaeth yng Nghasnewydd cymerodd Cadeirydd y Cyfundeb, y Parchedig Kevin Davies, y cyfle i ddiolch a'n llongyfarch fel eglwys ar baratoi a chyhoeddi ***Emaus i'r Ifanc***. Nododd bod y llyfr yn adnodd cyfoethog, yn llawn syniadau, ac anogodd Ysgolion Sul y Cyfundeb i'w ddefnyddio. Tynnwyd dau ddyddiad i'n sylw fel eglwys: **Sul y Cyfundeb 17 Gorffennaf 2011** a **Thaith y Cyfundebau 21-22 Medi 2011**. ***Bydd Cyfarfod Chwarter nesaf y Cyfundeb yn cael ei gynnal yn Eglwys Minny Street ar 4 Mai 2011.***

Munud i Feddwl – 2 Chwefror 2011

Ydych chi'n cytuno mai peth anesmwyth iawn yw teimlo'n *biweitus* a bod *cyhoedditus* yn medru amharu yn fawr ar oedfa. Hawdd iawn bod yn *flightgeist*; y gofid yw ein bod yn troi yn *megalurch*. Fyddech chi am gael eich cyfrif yn *dwcsgregis*? Beth am rannu eich meddyliau gyda'r Gweinidog yn ei **Funud i Feddwl** wythnosol?

Taith o Amgylch yr Amgueddfa Genedlaethol - 1 Chwefror 2011

Cafwyd cyfarfod arbennig o werthfawr heno yng nghwmni Ann Saer. Mae Ann yn gwneud cyfraniad gwerthfawr fel Ysgrifennydd Cyfeillion yr Amgueddfa Genedlaethol, ac yn un o'r tywyswyr swyddogol (Llun: Castell Dolbadarn gan Richard Wilson 1714-1782). Ni allem gael neb mwy addas i roi tipyn o hanes yr Amgueddfa ac yn arbennig i'n tywys o La Parisienne (1874) gan Renoir (1841-1919) gwmpas rhai o'r trysorau sydd i'w gweld yn yr orielau celf.

Dechreuodd Ann gyda'r Rhamantwyr fel Richard Wilson a'i lun enwog o Gastell Dolbadarn cyn symud ymlaen at rodd amhrisiadwy'r Chwiorydd Davies o weithiau'r Argraffiadwyr (er enghraifft, Renoir) ac yna'r Mudiad Swrrealaidd wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf. Daeth y cyfan yn fyw o flaen ein llygaid gyda sleidiau o rhai o'r lluniau. Edrychwn ymlaen nawr at ymweliad â'r Amgueddfa!

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas ar **15 Chwefror 2011**: *"Fy milltir sgwâr***"** yng nghwmni Eilonwy Jones a Peter Gillard.